Cylchlythyr Haf 2008

www.caergors.org ☎01286 831 715 Rhosgadfan, Caernarfon, Gwynedd. LL54 7EY

Tâl Mynediad 2008: Oedolion - £3.80; Pensiynwyr a Phlant - £3.20; Tocyn Teulu - £12. Gostyngiad i grwpiau

Diolch, Marian!

Wedi un ar ddeg mlynedd hynod brysur yn codi arian, hyrwyddo a chadw trefn ar weithgareddau Cyfeillion Cae'r Gors, ymddeolodd Marian Elias Roberts o'i swydd fel ysgrifennydd y Cyfeillion ac fel Ymddiriedolwr ym mis Ebrill eleni. Mawr fu ei chyfraniad i'r cynllun, a chafwyd te parti yng Nghae'r Gors ddydd Mercher, Mai 22ain i ddiolch iddi am ei hymroddiad a'i chefnogaeth dros y blynyddoedd. Cyflwynwyd llun o Gae'r Gors gan yr arlunydd lleol Karen Jones i Marian, yn rhodd gan ymddiriedolwyr a staff Cae'r Gors.

Mynychwyd yr achlysur arbennig hwn gan Yr Athro Wolfgang Schamoni, Almaenwr sydd wedi cyfieithu detholiad o straeon byrion Kate Roberts. Mae ei gyfieithiad diweddaraf, *Der Schatz*, wrthi'n cael ei baratoi gan Wasg Waldgut, gyda'r bwriad o'i gyhoeddi'n ddiweddarach eleni.

Penodwyd ymddiriedolwyr newydd i'r pwyllgor yn ystod y cyfarfod blynyddol ym mis Mawrth eleni, sef Margaret Eaglestone o Rosgadfan a Marika Fusser o Ros Isaf. Maent eisoes yn aelodau brwd o'r tîm gwirfoddoli ac edrychwn ymlaen at gael cydweithio ymhellach â'r ddwy.

Clwb Darllen Cae'r Gors

Estynnwn wahoddiad cynnes i chi fynychu noson o adloniant yng Nghlwb Mountain Rangers, Rhosgadfan **nos Wener, Gorffennaf 25ain** am **7.30 o'r gloch** yng nghwmni'r awdur, Dewi Prysor. Bydd Arwel 'Pod' Roberts yn ei holi am ei nofelau poblogaidd, a bydd elw'r noson yn mynd tuag at gronfa Cae'r Gors. Pris tocyn yw £4 (am ddim i aelodau'r clwb darllen), ac maent ar werth yng Nghae'r Gors ac yng Nghlwb Mountain Rangers.



Mae Clwb Darllen Cae'r Gors, a sefydlwyd yn ddiweddar, yn cyfarfod yn fisol (ac eithrio ym mis Awst) i drafod a dethol pob math o lenyddiaeth, a hynny mewn awyrgylch anffurfiol a chyfeillgar. Mae tâl aelodaeth flynyddol o £4 y pen. Mae hyn yn caniatáu i aelodau'r clwb brynu'r llyfrau dewisedig gyda 15% o ostyngiad, yn ogystal â mynychu nosweithiau adloniannol y clwb yn rhad ac am ddim. Cysylltwch â ni am fanylion pellach.

Addysg

Croesawyd pedair ysgol ar ddeg i Gae'r Gors yn ddiweddar i fynychu tair cyfres o weithdai ar wahanol destunau. 'Tai Ddoe a Heddiw' oedd testun y gweithdai fis Ebrill, a gweithdai 'Cynefinoedd' a 'Dilyn Afon' dan ofal Gwydion Tomos a gafwyd ym mis Mai. Bu Angharad Tomos yn magu doniau'r dyfodol ym mis Mehefin yn ystod ei gweithdai ysgrifennu creadigol yn seiliedig ar ddathliadau Diwrnod y Dywysoges Gwenllian.

Ar ddydd Mawrth, 24ain o Fehefin, bydd pecyn addysg trawsgwricwlaidd CA1 a 2 Cae'r Gors yn cael ei lansio yn Ysgol Baladeulyn dan ofal yr awdur, Eryl Thomas. Mae'r pecyn addysg yn seiliedig ar y gyfrol *Te yn y Grug* gan Kate Roberts, ac yn trafod pob agwedd o fywyd ar dyddyn ar droad yr ugeinfed ganrif, a hynny trwy lygaid ifanc a sylwgar Begw. Mae tair agwedd i'r pecyn:

- Deg stori fer yn trafod profiadau penodol ym mywyd Begw, megis dydd Llun golchi, yr Ysgol Sul, diwrnod corddi a chynhaeafu gwair. Gellir dewis gwrando ar ddarlleniadau o'r straeon hyn ar ffurf ffeil MP3, arddangos y straeon ar fwrdd gwyn rhyngweithiol yn y dosbarth, neu gynhyrchu copïau papur ohonynt trwy'u hargraffu.
- Adran ar gyfer yr athro/athrawes sy'n cynnwys geirfa, pwyntiau trafod a gweithgareddau i'w cwblhau yn y dosbarth. Rhoddir nod ac amcanion y gweithgareddau'n ogystal, yn unol ag argymhellion y Cwricwlwm Cenedlaethol, i'w defnyddio ar gyfer llunio cynlluniau gwersi.
- Blwch yn llawn gwrthrychau (i'w benthyg am gyfnod) sy'n cyd-fynd â'r straeon, i'w defnyddio mewn arddangosfa ddosbarth neu yn ystod ymarferion chwarae rhôl.

Cyfeillion Cae'r Gors

Hoffech chi danysgrifio a bod yn Gyfaill er mwyn sicrhau dyfodol Cae'r Gors?

Er i Gae'r Gors dderbyn nawdd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri, o fis Mawrth 2011 bydd rhaid i'r elusen sefyll ar ei thraed ei hun ac amcanu i fod yn sefydliad hunangynhaliol. O ganlyniad, rydym yn cynnig cyfle i unigolion danysgrifio i'n cynllun 'Cyfeillion Cae'r Gors'. Pe baech yn fodlon cyfrannu £2 y mis trwy drefniant debyd uniongyrchol:

✓ Cewch flaenoriaeth i fynychu digwyddiadau Cae'r Gors gan fod ymysg y cyntaf i dderbyn gwybodaeth am ein gweithgareddau amrywiol;

✓ Cewch dderbyn ein cylchlythyr yn chwarterol yn adrodd newyddion diweddaraf o Gae'r Gors.

Pe baech yn fodlon cyfrannu £10 neu fwy'r mis, yn ogystal â'r uchod:

✓ Cewch dderbyn copi cyhoeddedig o ddarlith flynyddol Cae'r Gors;

✓ Cewch dderbyn copi o galendr Cae'r Gors, gyda lluniau godidog o'r ardal a fu'n gymaint o ysbrydoliaeth i Kate Roberts.

Cysylltwch â ni am fanylion pellach.

O ganlyniad i'r cynllun uchod, bydd rhaid tanysgrifio er mwyn derbyn y cylchlythyr hwn o hyn ymlaen. Diolch yn fawr i chi am eich cefnogaeth.

Dyddiadur Mehefin 2008 - Awst 2008

Mehefin 24ain - Lansio *Byd Begw*, pecyn addysg trawsgwricwlaidd yn Ysgol Baladeulyn, Nantlle yng nghwmni Eryl Thomos am 2 o'r gloch y pnawn. Pris £25 (+£10 am logi'r blwch hen greiriau am dymor).

Gorffennaf 1af - Cyfarfod Clwb Darllen Cae'r Gors yng Nghlwb Mountain Rangers am 7.30 o'r gloch. Cyfle i drafod *Dygwyl Eneidiau* gan Gwen Pritchard Jones, ac i brynu *Brithyll* a *Madarch* gan Dewi Prysor.

Gorffennaf 25ain - Noson o adloniant yng nghwmni Dewi Prysor ac Arwel 'Pod' Roberts yng Nghlwb Mountain Rangers am 7.30 o'r gloch. Tocyn - £4.

Awst 2il - 9fed - Arddangosfa ar stondin Cronfa Dreftadaeth y Loteri yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd. Dewch draw am sbec!

Gŵyl y Banc, Awst 25ain - *Diwrnod Golchi.* Hwyl i'r teulu i gyd! Ar agor rhwng 12 a 4 o'r gloch.